Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

Llangynwyd
Maesteg
PEN-Y-BONT AR OGWR
CF34 9RW

Ffôn/Phone: 01656 815700
Ffacs/Fax: 01656 815701
Ebost:email: post.ygglangynwyd@bridgend.gov.uk
Trydar/Twitter: @ygglangynwyd1

Pennaeth/Headteacher: Mr M Jones BEng (Hons), NPQH

20 fed o Chwefror, 2014

Annwyl Riant / Warcheidwad,

CWRS SGÏO/EIRFYRDDIO, 2015

Mae'r adran Addysg Gorfforol yn trefnu cwrs sgïo 2015 i Amade, Flachau. Bydd angen lleiafswm o 30 disgybl er mwyn i'r daith gael ei chynnal.

Lleoliad:	Awstria (Amade,Flachau)
Dyddiadau:	Gwyliau Pasg; 27 ain o Fawrth – 4ydd o Ebrill 2015
Trafnidiaeth:	Bws a llong. (Bysiau J.J Kavanagh Coaches a llong P&O neu DFDS Seaways).
Cost:	£750.00
Cwmni:	Snowstyle

Mae'r gost yn cynnwys :

- Trafnidiaeth lawn ar fysiau moethus o'r ysgol i'r ganolfan wyliau ac yn ôl. Croesi o Dover i Dunkirk ar gwch DFDS Seaways.
- Llety 3* wedi ei neilltuo ar gyfer Llangynwyd yn unig, brecwast a phryd bwyd gyda'r nos ag eithrio bwyd wrth i ni deithio.
- 6 x 5 awr o wersi arbenigol gan hyfforddwyr cymwysedig (Toni Gruber Ski Schule).
- Llogi offer sgïo o'r safon uchaf – sgis, bwts, polion a helmed wedi ei ffitio gan dechnegwyr 'Gerhard's Snow Shop'.
- Tocyn lifft 6 diwrnod sy'n caniatáu mynediad i dros 865Km o lethrau sgïo Amade.
- Yswiriant llawn.
- Amserlen estynedig o weithgareddau nos (noson 'karaoke' a pitsa , cwis, noson wobrwyo, nofio, bowlio a.y.b).

Yn ychwanegol i hyn bydd angen gwisg sgïo addas ac arian poced ar gyfer y daith. Nid yw cinio yn gynwysedig yn y pris. Bydd pryd o fwyd a diod ar y llethrau yn costio hyd at €8 y dydd. Bydd yr ysgol sgïo yn llogi seddi i'r disgyblion bob dydd mewn bwytai ar y llethrau sgïo.

Mae modd i ddisgyblion eirfyrddio yn lle sgïo os oes diddordeb. Bydd angen lleiafswm o 8 disgybl er mwyn i'r gweithgaredd hwn allu digwydd.

Os hoffech i'ch plentyn ddod ar y daith hon a fyddech mor garedig â dychwelyd y rhwyglen isod i'r ysgol ynghyd â blaendal o £100.00 erbyn **Dydd Gwener 4ydd o Ebrill**. Wedi hynny bydd angen y taliad gyntaf o £200 erbyn y 20/6/14. Byddaf yn eich hysbysu am ddyddiadau pwysig ar gyfer taliadau eraill. Bydd croeso i chi dalu mewn rhandaliadau wedi'r blaendal cyntaf ac fe fydd cerdyn cynilo gan eich plentyn er mwyn cofnodi'r taliadau. Bydd gofyn i chi dalu trwy ddefnyddio siec os gwelwch yn dda. Dylid ysgrifennu sieciau at Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd.

Yr eiddoch yn gywir,

C. Price

Mr Carwyn Price
Cydlynydd y Daith Sgïo

Mr Meurig Jones
Dirprwy Bennaeth

Eco-Sgolion Eco-Schools
Compact Partner CILT Cymru Partner Cytundeb
Bridgend Healthy Schools Ysgolion Iach Pen-y-Bont
Investors in Families Buddsoddwyr mewn Teuluoedd
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government
ICT Mark Accredited Next Generation Learning
SMART Showcase School
International School Award 2010-2013

Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

Llangynwyd
Maesteg
PEN-Y-BONT AR OGWR
CF34 9RW

Ffôn/Phone: 01656 815700
Ffacs/Fax: 01656 815701
Ebost:email: post.ygglangynwyd@bridgend.gov.uk
Trydar/Twitter: @ygglangynwyd1

Pennaeth/Headteacher: Mr M Jones BEng (Hons), NPQH

Hoffwn i fy mhlentyn fynychu'r Cwrs Sgïo/Eirfyrddio i Amade, Awstria 2015.

Rhowch ✓ yn y bocs.

☐ Amgaeaf flaendal o £100.00. Deallaf bydd angen y taliad gyntaf o £200 erbyn Dydd Gwener 20fed o Fehefin 2014. *(Yn ogystal deallaf na fydd modd cael y blaendal hwn yn ôl oni bai bod y daith yn cael ei gohirio oherwydd diffyg niferoedd).*

Enw'r Disgybl : _____ Blwyddyn Ysgol: _____

Llofnod Rhiant / Warcheidwad : _____

✂----------

I would like my child to attend the 2015 Ski/Snowboard Course to Amade, Austria.

Put a ✓ in the box;

☐ I enclose a cheque of £100.00 deposit. I understand that the first payment of £200.00 will be required by Friday, 20th of May 2014. *(Furthermore I understand that these deposits are non-refundable unless the course is cancelled due to lack of numbers).*

Pupils Name: _____ School Year: _____

Parent / Guardian Signature: _____